## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Alun Davies AC
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Llywodraeth Cymru

5 Mawrth 2012

Annwyl Alun,

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin – Ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin**

Fel y gwyddoch, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn edrych ar effaith y diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar Gymru. Rydym yn ysgrifennu gyda'n canfyddiadau a'n hargymhellion cychwynnol. Rydym yn gobeithio y bydd ein canfyddiadau'n ddefnyddiol wrth ddatblygu'ch safbwynt o ran yr argymhellion hyn ac y gallwch gefnogi'n canfyddiadau fel rhan o ddirprwyaeth y DU, o fewn Cyngor y Gweinidogion ac yn uniongyrchol gyda Senedd Ewrop.

*Crynodeb o'r prif ganfyddiadau*

Ar sail cyflwr presennol sector pysgodfeydd yr UE a dirywiad parhaus stociau pysgod Ewrop, cred y Grŵp fod y cynigion gan y Comisiwn Ewropeaidd yn amserol ac y dylid eu croesawu'n gyffredinol. Rydym hefyd yn croesawu ffocws Llywodraeth Cymru ar sicrhau bod y cynigion a nodir gan y Comisiwn Ewropeaidd yn cymryd ystyriaeth ddigonol o fuddiannau ac anghenion y fflyd sy'n pysgota ar raddfa fechan ar hyd y glannau yng Nghymru.

Mae'r Grŵp yn cefnogi nod y Comisiwn Ewropeaidd o gyflwyno cynigion i sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy a phroffidiol i'r diwydiant pysgota. Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwiliad galwodd rhanddeiliad o bob sector ar i'r Comisiwn roi eglurhad ar nifer o elfennau'r cynigion deddfwriaethol ac rydym yn eich annog i geisio rhagor o wybodaeth gan y Comisiwn am y meysydd hyn fel bod gan randdeiliaid yng Nghymru fwy o sicrwydd ynghylch canlyniadau posibl y cynnig.

Cafodd chwe ardal blaenoriaeth eu nodi yn arbennig yng ngham cyntaf y gwaith, a chredwn y byddai'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i newid testun y rheoliadau drafft:

- Sicrhau cysondeb, integreiddiad a chydymffurfedd rhwng y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Chyfarwyddebau amgylcheddol presennol yr UE;

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

E-bost / Email: ES.comm@cymru.gov.uk

- Sicrhau bod cynlluniau Amlflwydd yn cael eu datblygu fel mater o flaenoriaeth a chyfeirio at stociau arfordirol ac ecosystemau;
- Sicrhau gwir ddatganoli a datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau o ran rheoli pysgodfeydd, a llais digonol i bysgotwyr a chynhyrchwyr ar raddfa fechan yn y cynghorau ymgynghorol;
- Sicrhau nad yw'r cynigion mandadol ar gyfer trosglwyddo consesiynau pysgota yn caniatáu i gyfleoedd pysgota fynd i ddwylo'r rhai sydd â'r pŵer economaidd mwyaf er anfantais i gymunedau arfordirol;
- Sicrhau nad yw'r cynigion ar bysgod a gaiff eu taflu'n ôl yn atal y gweithgarwch cynaliadwy presennol o daflu pysgod yn ôl i'r môr yn fyw; a
- Sicrhau bod mesurau cadarn ar waith i sicrhau bod data'n cael ei gasglu mewn ffordd systematig a chyson ar draws Aelod-wladwriaethau.

Yn ychwanegol, mynegwyd pryderon difrifol i ni am effaith niweidiol Hawliau Pysgota Hanesyddol yn ardal 6 i 12 milltir forol o fôr Cymru. Er nad yw'r cynigion hyn yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn uniongyrchol credwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i chwilio am ateb i'r broblem hon yn ystod ei drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill. Rydym hefyd wedi gwneud sylwadau ar y darpariaethau Dyframaeth a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop arfaethedig.

*Y Camau Nesaf*

Dim ond cam cyntaf ein hymchwiliad yw hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd drwy gydol y broses drafod, gan geisio pob cyfle i ddylanwadu ar y canlyniad terfynol. Bydd hyn yn cynnwys cymryd tystiolaeth gan Weinidog y DU yn ystod tymor y gwanwyn ac ymweld â Senedd Ewrop i drafod ein canfyddiadau.

Rydym hefyd yn ysgrifennu at Senedd Ewrop i amlygu'r meysydd lle'r hoffem weld gwelliannau penodol i'r cynigion deddfwriaethol. Mae copi o'r ohebiaeth hon wedi'i hamgáu.

Yn ychwanegol, byddwn yn rhannu'r canfyddiadau gydag eraill sydd â diddordeb gan gynnwys Pwyllgor y Rhanbarthau, y Comisiwn Ewropeaidd , deddfwriaethau datganoledig yn y DU, San Steffan, CALRE, rhwydweithiau eraill yn y DU a grwpiau sydd â diddordeb.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb ac at ymgysylltu â chi yn ystod cam nesaf y trafodaethau ar y mater pwysig hwn i Gymru.

Yn gywir



**Julie James**
**Cadeirydd**

# Canfyddiadau allweddol Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

## 1. Hawliau Pysgota Hanesyddol

Er ein bod yn deall nad yw hawliau pysgota hanesyddol yn rhan o'r cynigion i ddiwygio'r PPC ar hyn o bryd, gan fod y cychod sydd â'r hawliau hyn yn cael effaith mor niweidiol ar ein fflyd pysgota, mae'n rhaid inni fanteisio ar bob cyfle i dynnu sylw at y problemau difrifol y mae'r mater hwn yn dal i'w creu. Rydym yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru i ddod â hawliau pysgota hanesyddol i ben yn yr ardal 0 - 6 milltir forol ond credwn y dylid cymryd camau hefyd i fynd i'r afael â'r mater o fewn 6 i 12 milltir forol o'r arfordir.

Mynegwyd pryderon difrifol gan y diwydiant pysgota yng Nghymru am effaith hawliau pysgota hanesyddol yn y 6 i 12 milltir forol. Roeddent yn nodi:

- Er mai ychydig iawn o gwotâu ar gyfer stociau masnachol sydd ar gael i bysgotwyr Cymru, mae'r stoc pysgota yn nyfroedd Cymru wedi parhau i ddirywio.
- Nid yw treillongau sy'n perthyn i fflydoedd sydd â hawliau hanesyddol yn cynnig unrhyw fudd economaidd uniongyrchol i gymunedau ar hyd glannau Cymru, ac mae unrhyw bysgod y byddant yn eu dal yn cael eu cofrestru i'w Haelod-wladwriaethau eu hunain, felly nid ydynt yn cael eu hychwanegu at y cofnod hanesyddol o'r pysgod a gaiff eu dal yng Nghymru.

Er ein bod yn nodi barn y Comisiwn nad yw'r Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, yn awyddus i ddelio â'r mater hwn ar hyn o bryd drwy'r PPC, rydym yn croesawu'ch datganiad i'r Grŵp y gallai Llywodraeth Cymru gychwyn trafodaethau ar y mater hwn os teimlai'r Cynulliad a'r Llywodraeth y dylid gwneud hyn.

Yn ychwanegol, rydym yn gobeithio'n arw y bydd datganoli pellach o reolaeth ar bysgodfeydd yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer creu cytundebau rhanbarthol ynghylch cyfyngu ar hawliau hanesyddol o fewn 12 milltir forol o arfordir Cymru. Oni bai y cymerir camau pendant yn y cyswllt hwn, bydd dyfodol cymunedau traddodiadol sy'n pysgota ar raddfa fechan ar hyd y glannau yn parhau i fod dan fygythiad.

**Rydym yn argymell y dylai Llwyodraeth Cymru ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer deialog newydd gydag Aelod-wladwriaeth sy'n dal hawliau pysgota hanesyddol yn nyfroedd Cymru.**

**Yn ei thrafodaethau ar y cynigion gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig, rydym yn argymell bod Llywodreth Cymru'n ymchwilio i'r cyfle i gyrraedd cytundebau rhanbarthol i gwtogi ar effaith hawliau hanesyddol yn nyfroedd Cymru.**

## 2. Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (*Erthygl 2.4*)

Mae gan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ran hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn cael ei rhoi ar waith. Gan hynny, rydym yn croesawu cynnig y Comisiwn Ewropeaidd y dylai'r PPC hybu dulliau o reoli pysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystemau ac y dylai sicrhau'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf erbyn 2015. Fodd bynnag, roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn mynegi pryder ynghylch y ffaith nad oes cysylltiad amlwg rhwng y Gyfarwyddeb a'r cynigion i ddiwygio'r PPC. Mae tri phrif faes yn peri pryder:

- Yn y Gyfarwyddeb, nodir bod angen i foroedd sicrhau statws ecolegol da erbyn 2020, ond nid yw'r PPC yn atgyfnerthu'n benodol y gofyniad hwn.
- Yn y Gyfarwyddeb, nodir bod angen i'r Aelod-wladwriaethau gydweithredu'n rhanbarthol ond nid yw'r gofyniad hwn wedi'i gynnwys yn rheoliadau'r PPC.
- Yn y Gyfarwyddeb, mae targedau ar gyfer pysgod a gaiff eu taflu'n ôl, ond nid ydynt yn cyd-fynd â'r targedau yn y cynigion i ddiwygio'r PPC.

Mae'r rhanddeiliaid yn credu bod y diffyg eglurder hwn yn creu anghysonderau a gwrthdaro posibl rhwng y Gyfarwyddeb a'r PPC, a allai danseilio amcanion cynigion y Comisiwn Ewropeaidd.

Yn eich tystiolaeth i ni roeddech yn nodi eich bod yn credu bod integreiddiad eisoes rhwng y Gyfarwyddeb a'r Polisi ond na fyddai Llywodraeth Cymru'n gwrthwynebu datganiad am integreiddio'r mesurau hyn ar wyneb y cynigion. Rydym yn croesawu'r datganiad hwn ac ar sail y farn a fynegwyd i ni gan randdeiliaid **rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ar drywydd gwelliant i *Erthygl 2.4* yn ystod ei thrafodaethau ar y cynigion.**

**Rydym yn argymell y dylid newid *Erthygl 2.4* i ddarllen fel a ganlyn:**

> **The Common Fisheries Policy shall integrate Union environmental legislation requirements; *contribute to the achievement of good environmental status of EU waters by 2020 and favourable conservation status under the Habitats and Birds Directives.***

## 3. Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar (*Erthygl 12*)

Roedd nifer o gyrff amgylcheddol yn pryderu am eiriad y cynigion i ddiwygio'r PPC yng nghyswllt y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar. Roedd rhanddeiliaid yn credu'n gryf bod y cynigion presennol yn gwanhau'r diogelwch y mae'r Cyfarwyddebau presennol yn ei gynnig i gynefinoedd a rhywogaethau morol. Efallai mai camgymeriad wrth ddrafftio testun y cynigion yw hyn, ond gall amharu'n arw ar y gallu i roi'r Cyfarwyddebau hyn ar waith yn effeithiol.

**Gan hynny, rydym yn galw am welliannau i destun y cynigion, fel a ganlyn:**

> ***Erthygl 12.1* i'w newid i ddarllen fel a ganlyn:**

**…..Member States in such a way as to *avoid deterioration of habitats and disturbance of species* in such special areas of conservation.**

***Erthygl 12.2* i'w newid i ddarllen fel a ganlyn:**

**The Commission shall be *obliged* to adopt delegate acts….to specify fishing related measures to *avoid deterioration of habitats and disturbance of species* in such special areas of conservation.**

## 4. Cynlluniau amlflwydd a'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf (Erthygl 2)

Roedd cyrff amgylcheddol a chyrff y diwydiant pysgota yn gefnogol i'r cynnig i ddatblygu cynlluniau amlflwydd i reoli stociau pysgod. Byddai dulliau o reoli stociau sy'n seiliedig ar gynlluniau ar gyfer nifer o flynyddoedd, ac sy'n diogelu ecosystemau, yn sicrhau gwell canlyniadau i'r stociau pysgod a'r diwydiant.

Roeddent yn cytuno, fodd bynnag, fod angen llawer rhagor o fanylion ynglŷn â rheoli sut a phryd y caiff y cynlluniau eu datblygu. Yn ogystal â hyn, gan mai drwy gyfrwng y cynlluniau hyn yn bennaf y bydd modd sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy, dylid sefydlu proses glir i gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o'u datblygu.

Roedd llawer o'r dystiolaeth o blaid cynnal asesiad amgylcheddol o gynlluniau amlflwydd ac y dylent ystyried pysgodfeydd y glannau, lle bo hynny'n berthnasol, er mwyn gweithredu ar sail ecosystemau cyfan.

Rydym yn cydnabod bod bylchau mewn data a gwybodaeth wyddonol a all, yn y tymor byr, fod yn rhwystr i'r gwaith o ddatblygu cynlluniau amlflwydd ond, er hyn, gan eu bod mor bwysig i lwyddiant y polisi, credwn fod yn rhaid ymrwymo i'w datblygu fel mater o frys.

**Gan hynny, rydym yn argymell, lle bo hynny'n bosibl, y dylid mabwysiadu cynlluniau amlflwydd erbyn 2015 i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ymrwymiad i sicrhau'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf o ran stociau pysgod erbyn 2015 ac y dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau'r gwelliant canlynol i destun y cynigion:**

**Ychwanegu adran 5 newydd at Erthygl 2 sy'n nodi: *Multiannual plans shall, where possible, be adopted by 2015.***

Yn ychwanegol:

**Rydym yn yn annog Llywodraeth Cymru i geisio rhagor o eglurder gan y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch sut a phryd y caiff y cynlluniau hyn eu datblygu.**

## 5. Trosglwyddo Consesiynau Pysgota (*Erthyglau 27-33*)

Mynegodd rhanddeiliaid amrywiaeth o bryderon am gynigion y Comisiwn i gyflwyno cynllun mandadol o gonsesiynau pysgota trosglwyddadwy i bob cwch dros 12 metr o hyd a phob cwch a ddefnyddir i dynnu offer. Mynegwyd y pryderon penodol a ganlyn:

- Byddai cyflwyno consesiynau pysgota trosglwyddadwy yn arwain at breifateiddio adnawdd cyhoeddus a byddai'r consesiynau pysgota, yn y pen draw, yn debygol o fynd i ddwylo'r rhai sydd â'r pŵer economaidd mwyaf.
- Ni fyddai'r system consesiynau pysgota trosglwyddadwy, o reidrwydd, yn sicrhau pensiwn i bysgotwyr i ganiatáu iddynt ymddeol a lleihau gorgapasiti. Er y byddai perchennog y consesiynau'n gallu eu rhentu ar brydles er mwyn cael pensiwn, dim ond perchennog neu gapten y cwch fyddai'n cael yr arian, nid y criw.
- Byddai'r system consesiynau pysgota trosglwyddadwy'n arwain at sefyllfa lle byddai pysgotwyr go iawn yn gorfod talu symiau mawr am gwota i berchnogion cychod a chonsesiynau pysgota.
- Gan fod nifer o gychod yn amlbwrpas ac yn defnyddio offer i dynnu ac offer goddefol, nid yw'n glir sut a phryd y byddai'r system fandadol yn gymwys i'r cychod hyn.
- Byddai'r system fandadol yn creu problemau penodol i'r fflyd sy'n pysgota ar raddfa fechan ar hyd y glannau yng Nghymru oherwydd, yn hanesyddol, prin fu rhywogaethau'r cwotâu a oedd ar gael iddynt.

Yn gyffredinol, teimlai rhanddeiliaid na ddylid cyflwyno system fandadol o gonsesiynau ac y dylai system wirfoddol fod yn un o ystod o ddulliau i'r Aelod-wladwriaethau eu defnyddio i leihau gorgapasiti a newid ymddygiad pysgotwyr.

Rydym yn croesawu eich barn bod angen rhoi dulliau diogelu digonol ar waith o dan system o gonsesiynau pysgota trosglwyddadwy i amddiffyn fflydoedd ar raddfa fechan ac y dylid rhoi pwerau i Aelod-wladwriaethau roi'r dulliau hyn ar waith. Rydym hefyd yn croesawu'r trafodaethau yr ydych wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU i geisio terfyn isaf i argaeledd cwota ar gyfer pysgotwyr Cymru a chredwn y gallai trafodaethau o'r fath fod yn hanfodol o ran diogelu cymunedau pysgota Cymru o dan system o gonsesiynau pysgota trosglwyddadwy.

Er ein bod yn cydnabod cynnig y Comisiwn i ganiatáu i Aelod-wladwriaethau gynllunio'u systemau a'u dulliau diogelu'u hunain, rydym yn teimlo bod y mater hwn yn rhy bwysig i'w adael i ragluniaeth.

**Rydym yn argymell, gan hynny, y dylai'r system consesiynau pysgota trosglwyddadwy fod yn wirfoddol ac y dylai Llywodraeth Cymru geisio mynd ar drywydd hyn fel rhan o'i thrafodaethau ar y Polisi.**

**Dylid o leiaf sicrhau mwy o eglurder yn y ddeddfwriaeth o ran y modd y caiff ei chymhwyso i gychod bach ag offer cymysg ac o ran y camau y dylid eu cymryd i ddiogelu ac i gynnal fflyd pysgota amrywiol Ewrop.**

## 6. Datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau

Rydym yn croesawu cynigion y Comisiwn i ddatganoli cyfrifoldeb dros reoli pysgodfeydd i'r rhanbarthau. Heb ddatganoli, a chynyddu rôl rhanddeiliaid, mae'n anodd dychmygu sut y gellir rheoli pysgodfeydd yr UE yn gynaliadwy. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn teimlo'n gryf nad oes digon o eglurder o ran y modd y gallai datganoli'r gwaith o reoli pysgodfeydd weithio'n ymarferol ee a fydd gan y Cynghorau Cynghori ran yn y gwaith, a fydd disgwyl iddynt reoli pysgodfeydd ar y cyd ag Aelod-wladwriaethau neu a fydd Aelod-wladwriaethau'n cael eu gorfodi i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n rhanbarthol?

Rydym yn cefnogi'ch barn y dylai'r cynigion hyn alluogi Aelod-wladwriaethau i sefydlu rheolaeth lai o'r moroedd ar raddfa ranbarthol ee ar lefel Môr Iwerddon, ac rydym yn cytuno y gallai'r dull hwn ganiatáu rheolaeth mwy priodol o bysgodfeydd Cymru. Felly, roedd y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Lowri Evans, y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Faterion Morol a Physgodfeydd, yn cadarnhau y gallai'r Aelod-wladwriaethau, o dan y cynigion, ddod ynghyd i reoli moroedd ar raddfa ranbarthol lai ee Môr Iwerddon.

**Rydym yn croeswu eich ymrwymiad i ddatblygu rheolaeth pysgodfeydd ar raddfa ranbarthol lai ac rydym yn argymell eich bod yn parhau i fynd ar drywydd y mater hwn gydag Aelod-wladwriaethau perthnasol eraill.**

Clywodd y Grŵp fod cefnogaeth gyffredinol i rôl a swyddogaethau'r Cynghorau Cynghori a theimlai rhanddeiliaid yn gryf y dylai'r Cynghorau Cynghori fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ac asesu cynlluniau amlflwydd. Fodd bynnag, roedd rhai'n pryderu am y modd y mae Cynghorau Cynghori wedi bod yn gweithredu. Teimlai rhanddeiliaid:

- Bod y Cynghorau Cynghori Rhanbarthol wedi ymbellhau oddi wrth bysgotwyr bach ac, oherwydd hynny, nid yw eu sylwadau wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol.
- Bod y rhai sy'n cynrychioli buddiannau pysgotwyr bach yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn gorfod dewis rhwng bod ar eu cychod neu fynd i gyfarfodydd i gynrychioli'r diwydiant.

Rydym yn nodi eich bod yn rhannu pryderon tebyg i'r Grŵp ynghylch y llais a roddir i bysgotwyr ar raddfa fechan yn y Cynghorau Cynghori rhanbarthol persennol ac rydym yn croesawu'ch awgrym y gallai rheolaeth ranbarthol ar raddfa lai roi llais cryfach i'r sector arfordirol. Fodd bynnag, clywodd y Grŵp gan gynrychiolwyr o'r diwydiant y byddent yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu ymhellach â phroses y Cyngor Cynghori.

**Rydym yn argymell, gan hynny, y dylid sicrhau bod strwythur y Cynghorau Cynghori yn y dyfodol yn rhoi llais i bysgotwyr a chymunedau'r glannau.**

Rydym yn croesawu'r cynigion yng nghyswllt Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a fyddai'n caniatáu i'r Aelod-wladwriaethau gynorthwyo cynrychiolwyr y

sector pysgota ar raddfa fechan i gyfrannu at drafodaethau'r Cyngor Cynghori Rhanbarthol.

**7. Pysgod a gaiff eu taflu'n ôl**

Er bod y cyrff amgylcheddol a'r diwydiant pysgota o blaid yr egwyddor o ddod â'r arfer o daflu pysgod yn ôl i'r môr i ben, roedd rhai ohonynt yn pryderu am ganlyniadau anfwriadol gwahardd yr arfer yn gyfan gwbl. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn teimlo'i bod yn bwysig:

- sicrhau bod cyn lleied o bysgod diangen â phosibl yn cael eu dal yn y lle cyntaf drwy ganolbwyntio ar ddefnyddio offer pwrpasol a chryfhau'r cysylltiad rhwng *Erthygl 14* yn ymwneud â mesurau technegol ac *Erthygl 15* yn ymwneud â physgod a gaiff eu taflu'n ôl
- cymryd camau i sicrhau nad yw marchnadoedd newydd yn cael eu creu ar gyfer rhywogaethau o bysgod bach sydd mewn perygl o ddiflannu.

Rydym yn nodi fod gennych farn debyg i honno a fynegwyd i'r Grŵp gan randdeiliaid. Gan hynny, rydym yn argymell y dylid newid *Erthygl 15* fel a ganlyn:

**All catches of the following fish stocks subject to catch limits caught during fishing activities in Union waters or by Union fishing vessels outside Union waters shall be brought and retained on board fishing vessels and recorded and landed except where used as live bait *or where unwanted catch can be returned alive*.**

**8. Casglu data (*Erthygl 37 a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop*)**

Roedd yr holl dystiolaeth yn cytuno bod yn rhaid seilio'r gwaith o ddiwygio'r PPC ar dystiolaeth wyddonol gadarn. Mae'n bwysig bod y broses o gasglu data o dan Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin newydd yn cael ei chynllunio i hybu dulliau sy'n diogelu ecosystemau yn hytrach na dim ond diogelu un stoc pysgod unigol. Bydd casglu amrywiaeth ehangach o ddata o safon yn bwysig ar gyfer datblygu a gweithredu cynlluniau amlflwydd ac yn hanfodol ar gyfer datblygu pysgodfeydd Ewropeaidd cynaliadwy. Roeddem yn falch bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi cydnabod hyn yn ystod ei thrafodaethau â ni ac rydym yn croesawu cynigion y Comisiwn Ewropeaidd i weithio gyda'r gymuned wyddonol a'r Aelod-wladwriaethau i wella'r dystiolaeth sydd ar gael.

Er mwyn llenwi'r bylchau presennol yn y data, roeddem yn teimlo bod angen gwneud rhagor i gymell pysgotwyr i gymryd rhan yn y broses o gasglu data ac i ddatblygu'r bartneriaeth rhwng y gwyddonwyr a'r pysgotwyr. Mae angen sicrhau bod y data a gesglir yn cael ei fwydo'n ôl i'r diwydiant mewn ffordd ddefnyddiol er mwyn iddynt weld ei bod yn fuddiol iddynt gymryd rhan yn y broses.

**Gan hynny, rydym yn croesawu'n frwd y cynigion yn Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i alluogi Aelod-wladwriaethau i gefnogi'r mathau hyn o brosiectau ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n**

**defnyddio unrhyw gronfeydd a ddarperir iddi yn y dyfodol o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i gefnogi'r math hwn o waith yng Nghymru.**

Rydym yn croesawu'ch cydnabyddiaeth bod angen i Gymru gryfhau ei mesurau casglu data a'r cymorth a ddarparwyd ar gyfer prosiectau fel Fish Map Mon sy'n ceisio creu partneriaeth rhwng y diwydiant a gwyddonwyr. **Byddem yn argymell eich bod yn ailadrodd yr arfer da a ddarlunir yn y prosiect hwn ar draws Cymru.**

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod yr Aelod-wladwriaethau'n rhoi sylw dyledus i'r broses o gasglu data, rydym yn cynnig y dylid cryfhau rheoliadau'r PPC i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau ddatblygu cynlluniau casglu data gyda rhanddeiliaid ac rydym yn argymell eich bod yn cefnogi newid o'r fath drwy'r broses drafod.

Ar hyn o bryd, mae *Erthygl 37.3 yn ymwneud â Gofynion Data ar gyfer Rheoli Pysgodfeydd* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau sicrhau bod y gwaith o gasglu a rheoli data gwyddonol ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn cael ei gydgysylltu'n genedlaethol. **Rydym yn argymell bod y cynigion yn cael eu diwygio fel a ganlyn:**

***Erthygl 37.3***

**Member States shall ensure the national coordination of the collection and management of scientific data for fisheries management and *shall produce multi-annual plans for data collection.* To this end they shall designate a national correspondent and organize an annual national coordination meeting. The Commission shall be informed of the national coordination activities *and of the production multi-annual plans* and be invited to the coordination of meetings.**

## 9. Dyframaeth

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gynnig y Comisiwn Ewropeaidd i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau ddatblygu strategaethau dyframaeth cenedlaethol. Yn ei thystiolaeth i'r Grŵp, nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Faterion Morol a Physgodfeydd mai'r UE oedd un o'r unig leoedd yn y byd lle nad oedd y sector dyframaeth wedi tyfu dros y blynyddoed diwethaf.

Er y dylid rhoi hyblygrwydd i'r Aelod-wladwriaethau gynllunio strategaethau cenedlaethol sy'n addas ar gyfer eu diwydiannau nhw, clywsom gan randdeiliaid y bydd yn bwysig i'r UE fod â chyfeiriad canolog cryf.

Rydym yn nodi pryderon Llywodraeth y DU ynghylch sybsidiaredd ac yn nodi eich bod, yn eich tystiolaeth i'r Grŵp, yn cefnogi'r sefyllfa bryd hynny. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r farn a fynegwyd i'r Grŵp wedi hynny, hoffem gydnabod bod y diwydiant yn awyddus i sicrhau twf yn y sector drwy gael arweiniad canolog ar gyfer yr UE cyfan. Bydd yn bwysig, fodd bynnag, sicrhau bod y PPC yn ei gwneud yn ofynnol i'r diwydiant lynu wrth fesurau a chyfarwyddebau i ddiogelu'r amgylchedd.

**Yng ngoleuni'r farn a fynegwyd i'r Grŵp gan y diwydiant, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei safbwynt gyda'r elfen hon o'r cynigion.**

## 10. Cynigion ar gyfer Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop

Ar ôl dechrau casglu'n tystiolaeth am y cynigion i ddiwygio'r PPC cyn cyhoeddi'r cynigion ynghylch Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, roeddem yn falch o weld bod cynifer o ddymuniadau rhanddeiliaid wedi'u cynnwys. Yn benodol, rydym yn croesawu'r cynigion i ganiatáu i'r Aelod-wladwriaethau gynnig arian ar gyfer:

- Cymorth ar lefel uwch i fflyd y glannau sy'n pysgota ar raddfa fechan;
- Cymorth busnes a marchnata i fflyd y glannau sy'n pysgota ar raddfa fechan;
- Dechrau busnesau newydd ar hyd y glannau;
- Cyrff i gynrychioli fflyd y glannau sy'n pysgota ar raddfa fechan i roi llais iddynt mewn trafodaethau'n ymwneud â'r PPC.

Gobeithio y bydd yr elfennau hyn yn parhau'n rhan o'r gronfa a **byddwn yn sicr yn eich annog i'w cefnogi yn y broses drafod.** Credwn fod cynigion Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn rhoi cyfle i Gymru ddatblygu pecyn holistig o gymorth i'w chymunedau arfordirol ac edrychwn ymlaen at weld cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio'r cronfeydd hyn.